



Fforwm Pysgodfeydd Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru

Cylch Gorchwyl

CYFLWYNIAD

Rydym eisiau gweld cyflenwadau pysgod a physgodfeydd llewyrchus yng Nghymru sy'n cael eu diogelu, eu cefnogi a'u gwella gan yr amgylchedd naturiol y maent yn dibynnu arno.

Mae pysgodfeydd mewndirol cynaliadwy yng Nghymru yn golygu: -

- Mae pysgod yn cael eu gwerthfawrogi fel adnodd naturiol pwysig i Gymru ac maent yn cael eu rheoli o fewn cyfyngiadau cynaliadwy
- Mae pysgodfeydd Cymru yn eiconig ac yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr
- Mae statws pysgodfeydd Cymru yn ddangosydd ar gyfer iechyd a gwydnwch adnoddau naturiol Cymru
- Mae pysgodfeydd yn cyfrannu at gymunedau hyfyw a bywiog yng Nghymru

Byddwn yn sicrhau pysgodfeydd cynaliadwy drwy ddiogelu cyflenwadau pysgod a'u hamgylchedd drwy ddefnyddio'r arferion gorau wrth reoli'r amgylchedd.

Byddwn yn...

- a) Rheoli cyflenwadau a physgodfeydd yn unol â gofynion statudol cyfredol a gwyddoniaeth arfer gorau, gan ystyried eu pwysigrwydd i'r gymdeithas ac economïau lleol
- b) Diogelu ac adfer statws dynodedig ein pysgod a physgodfeydd (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig)
- c) Datblygu gweledigaeth a rennir gyda rhanddeiliaid ar gyfer strategaeth pysgodfeydd newydd i Gymru

DIBEN Y FFORWM

Diben y fforwm yw:

1. Cynrychioli'r amrediad o randdeiliaid gyda buddiant mewn adnoddau pysgodfeydd dŵr croyw ac ymfudol Cymru a gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill i gynnal, gwella a datblygu pysgodfeydd mudol a dŵr croyw yng Nghymru

Yn benodol, bydd y fforwm yn gwneud y canlynol: -

- cynrychioli: deiliaid trwyddedau gwialen a rhwyd; clybiau genweirio; perchnogion

pysgodfeydd a glannau afonydd; sefydliadau cadwraeth pysgodfeydd; ymddiriedolaethau afonydd; gwirfoddolwyr a busnesau a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gysylltiedig â physgod a physgodfeydd

- gweithredu fel dolen gyfathrebu â chyrrff ac unigolion sydd â buddiant mewn pysgodfeydd a physgota ar faterion yn ymwneud â rheoli pysgodfeydd a materion cysylltiedig
- darparu fforwm ar gyfer cyfnewid gwybodaeth am reoli pysgodfeydd

2. Rhoi cyngor strategol i Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n adlewyrchu safbwyntiau'r pysgodfeydd ar yr isod:
 - a. Sut mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni ei ddyletswyddau pysgodfeydd, yn unol â ddyletswyddau cyfreithiol ac arweiniad statudol
 - b. Datblygu a gweithredu cynlluniau a phrosiectau
 - c. Tystiolaeth ac anghenion ymchwil
 - d. Hyrwyddo physgota
 - e. Dyletswyddau a thaliadau trwydded
 - f. Cost-ffeithiolrwydd gwasanaethau
 - g. Datblygiadau rheoleiddiol
 - h. Gweithio gyda'r sectorau preifat, elusennol a gwirfoddol
3. Cyfarwyddo cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys datblygu polisi a strategaeth sy'n gysylltiedig â physgodfeydd
4. Adolygu perfformiad gwaith pysgodfeydd a gwaith cysylltiedig Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod buddiannau genweirwyr a physgodfeydd yn eglur fod incwm trwyddedau gwialen a chyllid arall yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol i gefnogi cyflawni ddyletswyddau statudol Cyfoeth Naturiol Cymru
5. Ystyried effaith ecolegol, fiolegol ac economaidd materion newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg sy'n effeithio ar ein pysgodfeydd
6. Helpu i ledaenu gwybodaeth oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru a manau eraill i fuddiannau genweirio a physgodfeydd
7. Darparu adborth clir oddi wrth fuddiannau genweirio a physgodfeydd i Cyfoeth Naturiol Cymru a hwyluso darparu gwybodaeth i'r buddiannau hynny
8. Nodi cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a chyllid newydd
9. Cefnogi sganio'r gorwel am ddatblygiadau, cyfleoedd a risgiau newydd disgwylidig, a chodi ymwybyddiaeth o faterion ehangach yn ymwneud â rheoli pysgodfeydd dŵr croyw a mudol – er enghraifft, pysgodfeydd morol

SUT Y BYDD Y GRŴP YN GWEITHIO

Bydd y grŵp yn anelu at gyfarfod o leiaf ddwywaith bob blwyddyn.

Yn gyffredinol, bydd y cyfarfodydd yn cael eu trefnu gan Cyfoeth Naturiol Cymru mewn lleoliadau ledled Cymru er mwyn hwyluso presenoldeb.

Bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu drwy Skype/clyweliadau lle y credir bod hyn yn ffordd effeithiol o sicrhau cynnydd. Fodd bynnag, yr opsiwn a ffefrir fydd cyfarfod wyneb-yn-wyneb er mwyn mwyafu'r cyfleoedd ar gyfer cydweithio.

Bydd yr agenda, papurau a chofnodion ar gael i'r cyhoedd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru (oni bai y nodir yn wahanol).

AELODAETH

Bydd y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Cyfoeth Naturiol Cymru, sefydliadau pysgodfeydd anllywodraethol a chynrychiolwyr eraill. Bydd yr aelodaeth yn cael ei hadolygu a'i chytuno gan aelodau'r fforwm.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei gynrychioli gan:

- Aelod o fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n cynrychioli buddiannau pysgodfeydd a genweirio (cadeirydd y grŵp)
- Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu (o dro i dro) / Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol
- Prif Gyngorydd Pysgodfeydd
- Staff technegol a chymorth, yn ôl y gofyn

I gychwyn, bydd y sefydliadau anllywodraethol yn cynnwys:

Afonydd Cymru

Angling Cymru

Yr Ymddiriedolaeth Genweirio

Ymddiriedolaeth Eogiaid Iwerydd

Yr Ymgyrch Diogelu Pysgodfeydd Cymru

Y Gynghair Cefn Gwlad (Cymru)

Sefydliad Rheoli Pysgodfeydd – Cangen Cymru

Gwarchod Eog a Brithyll Cymru

Cymdeithas Genweirio Eog a Brithyll Cymru

Ymddiriedolaeth Brithyll Gwyllt

Gall aelodau enwebu dirprwyon i fynychu ar eu rhan.

Erail a allai fynychu:

Llywodraeth Cymru

Gallai grwpiau eraill, e.e. sefydliadau rhwydwyr ac ymddiriedolaethau/sefydliadau afonydd a natur unigol, gael eu gwahodd i ymuno i gyflwyno neu drafod eitemau perthnasol.

Bydd DEFRA ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn cael gwahoddiadau agored i fynychu (mae'r fforwm ar gyfer Cymru yn unig, ond bydd presenoldeb DEFRA ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynnal ymwybyddiaeth o ddatblygiadau yn Lloegr sy'n berthnasol i faterion pysgodfeydd, yn enwedig yn ein dalgylchoedd trawsffiniol a rennir).

Os oes materion sy'n codi o'r grŵp sydd o natur dechnegol, neu sydd angen trafodaeth fanylach, yna gallai grwpiau gorchwyl a gorffen gael eu sefydlu yn ôl yr angen. Bydd y grwpiau gorchwyl a gorffen yn cynnwys aelodau o'r fforwm ac unrhyw unigolion eraill a nodwyd i ddelio â'r mater o dan sylw a byddant wedyn yn adrodd yn ôl yn uniongyrchol i'r fforwm llawn ar gynnydd a chanlyniadau.

Cyfathrebu

Bydd nodiadau drafft o'r cyfarfodydd yn cael eu llunio gan Cyfoeth Naturiol Cymru a'u dosbarthu i aelodau a enwyd o'r fforwm. Byddwn ni'n anelu at gwblhau a chylchredeg y nodiadau cyfarfod drafft drwy e-bost o fewn 14 diwrnod gwaith.

Pan fyddant wedi cael eu cymeradwyo gan aelodau'r fforwm, bydd y nodiadau'n cael eu rhoi ar dudalennau gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru ac yna gallant gael eu hanfon ymlaen at eraill.

Bydd cyhoeddiad yn cael ei baratoi i'w gylchredeg i holl aelodau grwpiau pysgodfeydd lleol.

Ni fydd safbwyntiau a fynegwyd yn y cyfarfod a'u cynnwys yn y nodiadau yn cael eu priodoli i unigolion neu sefydliadau heb eu cytundeb clir.

Os bydd cais am wybodaeth ychwanegol yn cael ei wneud gan y grŵp, bydd yn cael ei chynnwys fel atodiad i'r nodiadau neu ei gwahaniaethu'n glir yn y nodiadau fel rhywbeth a gafodd ei ychwanegu wedyn ac nid yn ystod y cyfarfod.

Cyfathrebu anffurfiol: disgwylir i aelodau drafod y materion a godwyd yn y cyfarfodydd gydag eraill a dod â'u safbwyntiau i'r cyfarfodydd. Mae hyn yn rhan o'u cyfrifoldeb fel cynrychiolwyr pobl eraill yn y gymuned.

ATODIAD

Aelodaeth allanol cychwynnol o'r fforwm:

Afonydd Cymru
Gweithredol)

Stephen Marsh-Smith OBE (Prif Swyddog

Alan Winstone (ymddiriedolaethau
afonydd yng ngogledd Cymru) ynghyd
ag un cynrychiolydd rhanbarth arall (i'w
gadarnhau)

Angling Cymru

Carl Tonner (Cyfarwyddwr)

Gwarchod Eog a Brithyll Cymru

Richard Garner-Williams (Swyddog
Cenedlaethol)

Cymdeithas Genweirio Eog a Brithyll Cymru

Paul Edwards (Cadeirydd)

Ymddiriedolaeth Genweirio

Mark Lloyd (Prif Swyddog Gweithredol)

Ymddiriedolaeth Brithyll Gwyllt

Shaun Leonard (Cyfarwyddwr)

Ymddiriedolaeth Eogiaid Iwerydd

Mark Bilsby (Prif Swyddog Gweithredol)

Sefydliad Rheoli Pysgodfeydd

Nicola Teague (Cadeirydd)

Yr Ymgyrch Diogelu Pysgodfeydd Cymru

Chris White

Y Gynghair Cefn Gwlad (Cymru)

Rachel Evans